# TYMOR NYTHU ADAR RHAGOFALON

Yn gyffredinol, mae`r tymor nythu adar yn dechrau ddiwedd mis Chwefror ac yn dod i ben ddiwedd mis Gorffennaf. Mae bron pob aderyn sy'n nythu **wedi'i ddiogelu gan y gyfraith**.

Yn ystod y cyfnod yma rhaid cymryd pob rhagofal rhesymol i beidio ag aflonyddu adar sy'n nythu, mae hyn yn cynnwys nythod cyflawn a nythod sydd wrthi'n cael eu hadeiladu. Dydy nythod o flynyddoedd blaenorol, na nythod yr adar ifainc sydd wedi gadael eleni ddim wedi'u diogelu.

Cyn cychwyn ar unrhyw waith, gwnewch archwiliad gweledol o'r ardal sydd i'w thorri a nodi a oes adar yn bresennol sy'n ymddwyn mewn modd cynhyrfus neu wedi'u haflonyddu. Os bydd adar yn hedfan yn ôl i'r un ardal yn gyson gan wneud 'galwadau gofid', gallai hyn olygu bod nyth gerllaw.

Os bydd nyth yn cael ei darganfod yn ystod y gwaith torri, rhaid i'r gwaith **ddod i ben yn syth** yn yr ardal yna a sicrhau bod y nyth ddim wedi'i dadorchuddio.

Os oes angen clirio ardal fawr o dir prysg neu fieri, y cyngor gorau yw bod hyn yn cael ei wneud ar ôl y tymor nythu adar, gan ei chlirio yn ystod cyfnod mis Awst i fis Ionawr pan fydd gweithgarwch nythu adar llawer yn is.

Os ydych chi'n ansicr ynghylch unhryw beth neu os oes angen cyngor arnoch chi, anfonwch e-bost at-


Ebost: bioamrywiaeth@rctccbc.gov.uk

Ffôn: **01443 425 001**

Trwy'r Post:<br>
**Llys Cadwyn**<br>
**(Bloc 2)**<br>
**Pontypridd**<br>
**CF37 4TH**